# PWYLLGOR PENSIYNAU DYDD IAU, 8 TACHWEDD 2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, David Cowans (Cyngor Bwrdeistref Conwy), Simon Glyn, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, John Brynmor Hughes, Peter Read, John Pughe Roberts (Cadeirydd), Robin Williams (Cyngor Môn) a Sharon Warnes (Bwrdd Pensiynau - Arsylwi)

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau), Delyth Wyn Jones-Thomas (Cyfrifydd Pensiynau a Rheolaeth Trysorlys), Meirion Jones (Uwch Swyddog Cyfathrebu (Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 19eg o Fehefin 2018 fel rhai cywir

**5. DATGANIAD STRATEGAETH BUDDSODDI**

Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi Diwygiedig. Nodwyd bod y Pwyllgor Pensiynau eisoes wedi mabwysiadu'r Datganiad ym mis Mawrth 2017 yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Amlygwyd bod y datganiad bellach yn cynnwys yr egwyddorion buddsoddi yr oedd y Pwyllgor a'r Bwrdd Pensiynau wedi eu trafod a chytuno mewn cyfarfodydd blaenorol, yn sgil y sesiwn datblygol gydag ymgynghorwyr Hymans Robertson. Ategwyd bod yr egwyddorion yn amlygu dyheadau'r Gronfa yn glir, fydd y eu tro yn gosod arweiniad i Reolwyr Asedau'r Gronfa, yn ogystal â gosod cyfeiriad i drafodaethau gyda chydymarferwr Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn cadarnhawyd, yn unol â'r ail egwyddor yn y papur, y byddai'r Gronfa yn edrych i fuddsoddi o fewn ardal Cymru pan fydd buddiannau anariannol yn deillio o hynny, yn amodol ar fodloni gofynion y dyletswydd ymddiriedol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2018-2019

Cyflwynwyd, er gwybodaeth adroddiad yn amlygu gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Amlygwyd, yn ystod y chwe mis rhwng y 1af o Ebrill a 30 Medi 30ain 2018 bod gweithgarwch benthyca'r Cyngor wedi aros o fewn cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol ac nad oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 7. CYSONI ISAFSWM PENSIYNAU GWARANTEDIG

Cyflwynwyd er gwybodaeth, ddiweddariad i'r Pwyllgor o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud i gysoni'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig. Atgoffwyd yr aelodau bod tîm o dri wedi ei sefydlu yn Ionawr 2016 o dan arweiniad y cyn Reolwr Pensiynau Mr Gareth Jones. Gyda'r broses yn dod i ben Rhagfyr 2018, hysbyswyd y Pwyllgor bod sefyllfa Gwynedd yn un cymharol dda a chanmolwyd y tîm am eu gwaith da. Nodwyd bod arbenigedd y cyn Reolwr wedi sicrhau arbediad sylweddol i'r Cyngor o ddeall bod cronfeydd pensiwn eraill yn cyflogi ymgynghorwyr arbenigol drud yn y maes, neu heb weithredu o gwbl ac felly yn agored i risg ariannol.

Edliw'r sefyllfa bresennol bod gan Cronfa Bensiwn Gwynedd 119 o achosion a ddynodir fel *stalemate* lle mae'r Cyngor ac Adran Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn anghytuno gyda'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno. Cadarnhaodd y Rheolwr Pensiynau nad oedd gan CThEM unrhyw sail i herio gwybodaeth y Cyngor a bod y Cyngor yn gwbl bendant bod eu gwybodaeth yn gywir gyda thystiolaeth i brofi hynny. Cadarnhaodd y swyddogion bydd *stalemates* Gwynedd yn cael eu datrys yn 2019 - 2020, ond fod y sefyllfa gyffredinol gydag Isafswm Pensiwn Gwarantedig a *stalemates* ar hyn o bryd yn destun ymchwiliad gan Lywodraeth San Steffan.

Gyda'r broses ffurfiol yn dod i ben 31 Rhagfyr 2018, nodwyd y byddai unrhyw waith sydd heb ei ddatrys yn trosglwyddo i waith dydd i ddydd yr Adran Bensiynau.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth ac awgrymwyd anfon llythyr ar ran y Pwyllgor i ddiolch i Mr Gareth Jones am waith arwrol y Tîm Cysoni.**

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Penderfynwyd bod budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabuwyd fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn â derbyn cynnig penodol ar gyfer cost trwydded meddalwedd sydd yn wybodaeth fasnachol sensitif. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu tanseilio hyder darparwyr i ddod a phrisiau ymlaen gerbron y Cyngor ac felly gallu'r Cyngor i gaffael yn llwyddiannus. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma ystyriwyd y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

## 9. SYSTEM HUNAN WASANAETH AR GYFER AELODAU'R CYNLLUN PENSIYNAU

Cyflwynwyd adroddiad yn gwneud cais i'r Pwyllgor gymeradwyo cyllid ychwanegol ar gyfer gweithredu a rhedeg system newydd Hunan Wasanaeth Aelodau. Amlygwyd y prif resymau dros yr angen i ddiweddaru'r system a cafwyd cyflwyniad byr yn cymharu'r hen a'r newydd, a nodwyd byddai Gwynedd yn dewis llwyfannu'r meddalwedd newydd ar galedwedd o fewn y Cyngor. Ategwyd bod negodi gyda'r darparwr yn parhau er mwyn isafu'r pris.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol cytunwyd y byddai system newydd yn cynnig gwerth am arian ac yn cyfarch gofynion Polisi Iaith y Cyngor. Anogwyd y swyddogion i barhau i negodi'r pris a pwyso i gael rhedeg y system ar weinydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cyllid hyd at y cyfanswm nodwyd yn yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 2.45 y.h.

**CADEIRYDD**